Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith troseddwyr ifanc yn:

## **Gwynedd Môn**

ISBN: 978-1-84099-292-2

2010

## Rhagair

Cafodd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith troseddwyr ifanc yng Ngwynedd Môn ei gyflawni fel rhan o'r Rhaglen o Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi arolygu sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc o'r ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a'r agweddau Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Dros yr ardal ar y cyfan, gwnaethom farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith yn cael eu cyflawni'n ddigon da 74% o'r amser. Gyda'r agweddau Gwarchod y Cyhoedd, cafodd gwaith i leihau Risg unigolyn o achosi Niwed i Eraill ei wneud yn ddigon da 66% o'r amser, a chafodd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 74% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir darllen y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r rhannau o Loegr a arolygwyd hyd yma. Hyd yn hyn, y sgôr cyfartalog ar gyfer *Gwaith Diogelu* oedd 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38-82%, y sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* oedd 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36-85%, a'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* oedd 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50-82%.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr arolygiad diwethaf yng Ngorffennaf 2008 a gyda chymorth gan ei fwrdd, roedd tîm rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid[1] wedi bod yn gweithio ar yr argymhellion. Gwelsom welliant garw yn y gwaith aml-asiantaeth, o'r asesu drwodd at ddarparu'r ymyriadau. Roedd cynnydd da iawn hefyd wedi'i wneud yn y gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn dedfrydau dan glo, sy'n dangos bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gallu cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol.

Er bod rhai meysydd sydd angen sylw pellach, cawsom fod y tîm staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a'u bod yn awyddus i ddysgu o broses yr arolygiad.

Ar y cyfan, barnwn fod y darganfyddiadau yn rhai calonogol

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Gorffennaf 2010*

[1] Tîm Troseddwyr Ifanc wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1989 yw hwn ond defnyddir yr enw Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid arno ac, felly, cyfeirir ato yn y termau hyn drwy gydol yr adroddiad.

## Cydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch i'r holl staff o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, i aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau bod yr arolygiad hwn wedi rhedeg yn llyfn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Helen Davies* |
| *Arolygwyr* | *John Llewelyn Thomas; Iolo Madoc-Jones* |
| *Staff Cymorth* | *Andrew Trickett* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Julie Fox* |

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 4 |
| Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| Argymhellion | 7 |
| Y camau nesaf | 7 |
| Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth | 8 |
| Rhannu arferion da | 9 |
| 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 10 |
| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | 10 |
| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 11 |
| 1.3 Diogelu: | 12 |
| 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 14 |
| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | 14 |
| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | 15 |
| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | 15 |
| 3. CANLYNIADAU | 18 |
| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | 18 |
| 3.2 Cynnal canlyniadau: | 19 |
| Atodiad 1: Crynodeb | 20 |
| Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 21 |
| Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 22 |
| Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 23 |
| Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 23 |
| Atodiad 5: Rhestr Termau | 24 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran am bob un o'r 'meini prawf ymarfer' sy'n nodi pa mor aml i bob agwedd ar y gwaith gyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith ym mhob sampl o achosion.

Felly, roeddem yn gallu rhoi sgôr sy'n cynrychioli pa mor aml oedd yr agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* ar yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y lefel o ansawdd yr oeddem yn chwilio amdani, a grynhoir yma.

Rydym hefyd yn rhoi prif 'sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd yma ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu'n **ARW** yn y dyfodol agos.

| ***Sgôr Diogelu*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Diogelu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** | ***Sylw:*** |
| ***74%*** | ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Risg o Niwed*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Risg o Niwed* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a oes angen arolygiad pellach cynt neu beidio. | |
| ***Sgôr:*** | ***Sylw:*** |
| ***66%*** | ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu*:** | |
|---|---|
| Mae'r sgôr hwn yn nodi'r ganran o waith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* a oedd yn ein barn ni o safon ddigon uchel. | |
| ***Sgôr:*** | ***Sylw:*** |
| ***74%*** | ***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, felly hefyd proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o'n darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal yn y dyfodol.

## **Argymhellion** (rhoddir y person sy’n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod asesiad da a phrydlon yn cael ei wneud ar y dechrau o ba mor agored i niwed yw’r unigolyn a’i *Risg o Niwed i Eraill*, fel y bo’n briodol i’r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth CI)

(2) o ganlyniad i’r asesiad, bod cofnod y cynllun ymyrryd yn benodol ynghylch beth fydd yn cael ei wneud i ddiogelu lles y plentyn neu’r person ifanc o hynny ymlaen, ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed i Eraill* sydd wedi cael ei adnabod (Rheolwr y Gwasanaeth CI)

(3) bod asesiad o arddull ddysgu’r plentyn neu’r person ifanc yn cael ei gofnodi ac yn cyfrannu at ddewis yr ymyriad mwyaf priodol, a sut orau i’w ddarparu (Rheolwr y Gwasanaeth CI)

(4) bod tystiolaeth yn y ffeil o sicrhau ansawdd rheolaidd gan reolwyr, yn enwedig o benderfyniadau sgrinio a chynlluniau rheoli risg ac agored i niwed, fel sy’n briodol i’r achos penodol (Rheolwr y Gwasanaeth CI)

(5) bod gorchmynion llys yn cael eu gorfodi’n unol â safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y Gwasanaeth CI)

Hefyd:

(6) bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y meini prawf atgyfeirio ar gyfer y Panel Rheoli Risg ac Agored i Niwed yn cael eu cymhwyso’n gyson gan y staff i gyd (Rheolwr y Gwasanaeth CI).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio’n derfynol, bydd y cynllun yn cael ei anfon ymlaen at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro ei weithrediad.

## Persbectif y Defnyddwyr Gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

Llenwodd un-ar-bymtheg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad hwn.

- Dywedodd bob un heblaw un o'r plant a phobl ifanc eu bod yn gwybod pam oeddent wedi dod at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) a bod y staff wedi egluro beth fyddai'n digwydd iddynt.
- Ym mhob achos roedd gweithiwr y GCI wedi trafod cynllun ymyrryd y plentyn neu'r person ifanc gyda nhw ac roedd cyfran uchel wedi derbyn copi.
- Teimlai'r mwyafrif llethol fod gan staff y GCI ddiddordeb yn eu helpu, eu bod yn gwrando arnynt ac yn delio gyda'u anghenion cymorth.
- Roedd pedwar-ar-ddeg yn cofio llenwi ffurflen *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* neu ffurflen arall amdanynt eu hunain.
- Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn fodlon gyda'r gwasanaeth oedd wedi cael ei ddarparu gan y GCI. Teimlai fwyafrif mawr ohonynt fod gweithio gyda'r Gwasanaeth wedi eu gwneud yn llai tebygol o droseddu ac wedi gwella eu bywydau.

### Dioddefwyr

Cafodd ddau holiadur eu llenwi gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc.

- Roedd rhy ychydig wedi ymateb i ystyried eu hymatebion fel unrhyw beth ond rhai unigol ac ni ddylid ystyried eu hymateb i fod yn un cynrychioliadol.
- Roedd y ddau a ymatebodd yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth oedd wedi cael ei ddarparu gan y GCI. Roedd y Gwasanaeth wedi ystyried eu hanghenion ac roeddent wedi elwa o'r gwaith a wnaed gan y plentyn neu'r person ifanc.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

| | |
|---|---|
| **Asesu a Chynllunio Dedfrydau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 1.3** | Roedd Gareth, person ifanc Cymraeg ei iaith gydag anawsterau dysgu, yn cael trafferth mynegi ei hun mewn amgylchedd dan glo a oedd yn gwbl Seisnig. Drwy ystyried ei anghenion Diogelu ac amrywiol, roedd ei weithiwr GCI wedi canolbwyntio'n bennaf ar symud y person ifanc i Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath. Roedd y sefydliad hwn yn cynnwys pobl ifanc eraill a oedd yn siarad Cymraeg ac wedi cael peth profiad o ateb eu hanghenion fel grŵp gwahanol. O ganlyniad, roedd Gareth wedi setlo'n well ymhlith ei gyfoedion Cymraeg eu hiaith. |
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.2** | Merch ifanc 17 oed oedd Sian gyda hanes o yfed yn drwm, a rhoi ei hun yn aml mewn sefyllfaoedd agored i niwed yn hwyr y nos. I reoli'r risgiau i Sian ac eraill, roedd rhaglen ISSP wedi cael ei wneud yn amod ar ei thrwydded. Roedd y cyrffyw'n cyfrannu at leihau cyfle Sian i roi ei hun mewn perygl ar amser pan oedd yn arbennig o agored i risg. Roedd goruchwyliaeth ddwys wedi canolbwyntio ar ei defnydd o alcohol ac ar aros yn ddiogel. Roedd Sian wedi cydymffurfio'n dda gyda'i gorchymyn ac yn raddol codwyd y cyrffyw wrth iddi setlo'n well yn y gymuned. |
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 3.2** | Fel rhan o orchymyn cymunedol am drosedd treisgar, roedd David wedi cwblhau 100 awr o waith di-dâl wedi'i oruchwylio gan y GCI, yn hytrach na'r gwasanaethau i oedolion. Ar ôl i'r GCI gysylltu â'r dioddefwr, roedd wedi cwblhau ei oriau mewn siop elusen leol ac wedi derbyn adroddiadau pur gadarnhaol. Roedd goruchwyliaeth wedi rhoi sylw i'w broblemau rheoli dicter ac roedd wedi'i gefnogi i ddilyn cwrs weldio. Roedd ar fin dechrau ei wobr Dug Caeredin a oedd yn cynnwys gwaith gwirfoddol yn y siop elusen, a chyfle i ddysgu sgiliau newydd. Roedd yr adolygiad o'r cynllun ymyrryd wedi cael ei ysgrifennu gan David ac ynddo roedd wedi dweud ei fod yn gweithio'n galed i newid ei fywyd. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o RoN yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, yn ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli'r RoN* | |
| ***Sgôr:***<br>***63%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio RoND (Risg o Niwed Difrifol) ei wneud ym mhob un o'r achosion heblaw am un, gyda 82% ar amser a 79% yn gywir. Mae'r sgrinio hwn yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn achosi niwed difrifol a, lle mae'n cael ei adnabod, mae'n ysgogi asesiad llawn.

(2) Mewn 78% o achosion, roedd yr asesiad RoND llawn yn gwneud defnydd digonol o'r holl wybodaeth briodol, gan gynnwys gwybodaeth gan asiantaethau eraill a dioddefwyr. Roeddem yn cytuno nad oedd yr un o'r achosion yn y sampl yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer MAPPA.

(3) Lle nad oedd angen Cynllun Rheoli Risg, roedd yr angen i gynllunio ar gyfer materion *RoN* wedi cael ei adnabod mewn 69% o'r achosion perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roeddem yn ystyried bod y dosbarthiad o RoN yn rhy isel mewn chwech achos ac nad oedd gan bedwar achos unrhyw ddosbarthiad clir.

(2) Roedd asesiad amserol o RoND wedi cael ei wneud mewn 9 allan o 15 achos perthnasol.

(3) Gwnaethom farnu y dylai deg Cynllun Rheoli Risg ychwanegol fod wedi cael eu cwblhau o ystyried y materion *RoN* oedd yn cyflwyno eu hunain. Rydym yn chwilio am Gynlluniau Rheoli Risg cynhwysfawr sy'n cynnwys cynigion i leihau'r *RoN.*

(4) Gwelsom dystiolaeth fod holl fanylion yr asesu a'r rheoli RoND yn cael eu cyfathrebu'n briodol i'r staff a'r asiantaethau perthnasol mewn 44% o'r achosion perthnasol.

(5) Barnwyd bod rheolwyr yn goruchwylio'r asesiadau o *RoN* yn effeithiol mewn dim ond 46% o'r achosion perthnasol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r darganfyddiadau uchod.

| 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o ToA yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***75%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cyfrannu'n weithredol at yr asesiad cychwynnol mewn 78% o achosion; y ffigur oedd 72% ar gyfer cynnwys rhieni / gofalwyr perthnasol. Roedd cyfrannu at y broses gynllunio hefyd wedi'i adlewyrchu'n gadarnhaol yn y darganfyddiadau.

(2) Mae angen asesiad cychwynnol o ToA ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a chawsom fod hyn wedi cael ei wneud ym mhob achos. Mewn 82% o'r sampl, roedd hyn wedi cael ei gwblhau ar amser ac o ansawdd boddhaol.

(3) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei oleuo gan gyswllt gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant mewn 79% o achosion a darparwyr ETE (Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth) mewn 72%.

(4) Roedd cynllun ymyrryd wedi'i gwblhau mewn 95% o achosion gyda 81% wedi eu cwblhau ar amser. Roedd tri chwarter yr holl gynlluniau'n rhoi sylw digonol i ffactorau a oedd yn gysylltiedig â'r troseddu, ac yn arbennig o gryf ar 'meddwl ac ymddygiad' ac 'agweddau at droseddu'.

(5) Roedd y cynlluniau ymyrryd i gyd yn adlewyrchu pwrpas y ddedfryd, gyda 86% yn rhoi siâp clir i'r gorchymyn. Roedd tri chwarter yn gosod amcanion perthnasol ac yn canolbwyntio ar newid cyraeddadwy.

(6) Roedd amcanion y cynlluniau ymyrryd yn ystyried materion dioddefwyr mewn 83% o achosion perthnasol.

(7) Yr asiantaethau allanol perthnasol a oedd yn cyfrannu fwyaf at y broses gynllunio oedd darparwyr ETE (79%) a CAMHS (77%). Roedd y sefydliad dan glo'n cyfrannu at yr holl achosion perthnasol a'r heddlu at y mwyafrif llethol a oedd yn berthnasol iddyn nhw.

(8) Roedd yr asesiad cychwynnol wedi cael ei adolygu ar yr adegau priodol mewn 84% o achosion; y ffigur oedd 74% ar gyfer cynlluniau ymyrryd. Roedd yn arbennig o galonogol gweld adolygiadau'r cynlluniau ymyrryd yn cael eu hysgrifennu gan y plentyn neu'r person ifanc ei hun.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd gwybodaeth a oedd ar gael am gyswllt blaenorol gyda'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi cael ei cholli mewn 6 allan o'r 17 asesiad cychwynnol perthnasol. Cyfeiriodd rai rheolwyr achos at 'gyfrinachedd y

cleient' fel y rheswm dros beidio â derbyn adborth priodol ar natur y gwaith a oedd wedi'i wneud gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Roedd hyn yn effeithio ar asesiad y GCI ac yn ymddangos i fod yn gwrthdaro gydag arferion gorau o ran rhannu gwybodaeth.

(2) Roedd yr asesiad cychwynnol yn cael ei oleuo gan holiadur *Beth ydych CHI'N ei feddwl?* y plentyn neu'r person ifanc mewn 42% o achosion. Roedd hwn yn aml yn cael ei ddefnyddio nes ymlaen yn y broses, gan gyfyngu ar y cyfle i gyfrannu at yr asesiad a'r cynllun o'r dechrau.

(3) Roedd y rheolwr achos wedi asesu arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc yn ffurfiol, cyn penderfynu pa ymyriad fyddai fwyaf priodol, neu sut orau i'w ddarparu, mewn 45% o achosion.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, cywir ac amserol, ac yn defnyddio ASSET ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau yn eu lle i reoli Diogelu ac i leihau statws agored i niwed.* | |
| ***Sgôr:***<br>***73%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio am statws agored i niwed yn defnyddio ASSET ei wneud ym mhob achos, gyda 87% wedi eu cwblhau ar amser.

(2) Roedd y mwyafrif llethol o Gynlluniau Rheoli Agored i Niwed wedi cael eu cwblhau ar amser ac i safon foddhaol.

(3) Roedd y Cynllun Rheoli Agored i Niwed yn goleuo'r ymyriadau mewn 77% o'r achosion perthnasol ac yn cyfrannu at gynlluniau perthnasol eraill mewn 88%.

(4) Roedd y cynlluniau ymyrryd yn cynnwys gwaith Diogelu priodol mewn 84% o achosion perthnasol.

(5) Roedd cyswllt gweithredol gyda'r sefydliad dan glo ynghylch materion Diogelu mewn naw allan o ddeg achos yn y sampl dan glo.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y sgrinio am statws agored i niwed yn cwrdd â'r safon ofynnol mewn 61% o'r sampl. Mae hyn yn goleuo'r penderfyniad i baratoi Cynllun Rheoli Agored i Niwed.

(2) Roeddem yn teimlo y dylai Cynllun Rheoli Agored i Niwed fod wedi cael ei baratoi mewn 11 achos arall, o ystyried y dangosyddion a oedd yn gysylltiedig â Diogelu.

(3) Mewn chwech allan o 13 achos perthnasol, nid oedd copïau o gynlluniau perthnasol gan asiantaethau eraill ar y ffeil.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 73%

### SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau ar y cyfan:

Roedd y gwasanaeth yn trefnu Panel Rheoli Risg ac Agored i Niwed misol a oedd yn cael ei gadeirio'n annibynnol ac yn rhoi mynediad gwerthfawr at adnoddau aml-asiantaeth. Fodd bynnag, roedd rhy ychydig o achosion yn cael eu hatgyfeirio, oherwydd rhoi amcan rhy isel am y *RoN* a statws agored i niwed a pheth camddealltwriaeth ynghylch y trothwyon atgyfeirio.

Cawsom fod gormod o asesiadau wedi cael eu defnyddio o'r gorchmynion blaenorol, gyda gwybodaeth anfoddhaol am yr ymddygiad presennol. Roedd hyn yn achosi dryswch ac yn debygol o fod wedi effeithio ar yr asesiad o *RoN* a statws agored i niwed.

Roedd y GCI wedi gweithio ar wella ei wasanaeth dioddefwyr dros y ddwy flynedd diwethaf ac roedd yn glir bod barn dioddefwyr yn cael ei hystyried o'r dechrau. Roedd nifer o ddatganiadau effaith ar y dioddefwr wedi cael eu cyflwyno i'r llysoedd, ac i gyfarfodydd y panel. Gwelsom hefyd lythyrau yn rhoi gwybod i ddioddefwyr beth oedd canlyniad y ddedfryd.

Roedd pob plentyn a pherson ifanc a oedd yn gofyn am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael gweithiwr Cymraeg ei iaith, a'r dewis o iaith yn cael ei gofnodi ar eu ffeil.

# 2. DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r person ifanc o achosi Niwed i Eraill.* | |
| ***Sgôr:***<br>***71%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roeddem o'r farn bod *RoN* y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei adolygu'n drylwyr, yn unol â'r amserlen ofynnol, mewn 71% o achosion.

(2) Roedd yn glir bod y staff wedi cyfrannu'n effeithiol at adolygiadau o fewn y sefydliad dan glo ym mhob achos. Ar gyfer y sampl gymunedol, cafwyd cyfraniad effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth mewn 69% o orchmynion.

(3) Cafodd ymweliadau cartref i bwrpas eu cyflawni drwy gydol y ddedfryd ac yn unol â lefel y *RoN* mewn 88% o achosion ac yn unol â materion Diogelu mewn 76% o'r sampl.

(4) Gwelsom dystiolaeth fod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelwch dioddefwyr mewn 78% o achosion perthnasol.

(5) Roeddem o'r farn bod adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â'r lefel a aseswyd o *RoN* mewn 89% o achosion.

(6) Cafodd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* yn y gymuned eu darparu fel a gynlluniwyd mewn 71% o'r sampl. Y ffigur ar gyfer achosion dan glo oedd 86%.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd newidiadau yn y lefel a aseswyd o *RoN* wedi cael eu hadnabod yn ddiymdroi mewn 53% o achosion perthnasol.

(2) Roedd yr asesiad o *RoN* wedi cael ei adolygu yn dilyn newid sylweddol mewn 47% o achosion perthnasol a'r cynllun ymyrryd wedi cael ei ddiweddaru mewn 41%.

| 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydgysylltu ac yn hwyluso'r gwaith systematig o ddarparu holl elfennau'r cynllun ymyrryd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***80%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau achos ac yn ystod cyfweliad o waith o ansawdd da (79%), wedi'i ddyfeisio i leihau aildroseddu (84%). Er nad oedd yn seiliedig ar asesiad ffurfiol o arddull ddysgu'r plentyn neu'r person ifanc, roedd bron i dri chwarter yr ymyriadau yn ystyried hyn. Roedd materion amrywiaeth wedi eu hymgorffori mewn 79% o achosion.

(2) Roedd gweithwyr y GCI wedi cael eu cynnwys yn briodol mewn adolygu'r ymyriadau dan glo.

(3) Roedd holl staff y GCI wedi ysgogi a chefnogi'r plentyn neu'r person ifanc yn weithredol, gan atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol, yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd lefel debyg o gyfrannu i'w weld gan rieni / gofalwyr mewn achosion perthnasol.

(4) Roedd adnoddau priodol wedi cael eu dyrannu'n unol â'r ToA a aseswyd ym mhob achos, drwy gydol y ddedfryd.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Gwelsom 12 achos lle nad oedd ymyriadau yn y gymuned wedi cael eu darparu'n unol â'r cynllun ymyrryd.

| 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau statws agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***78%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Ym mhob achos dan glo perthnasol, cawsom fod yr holl gamau diymdroi angenrheidiol wedi eu cymryd i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc. Y ffigur ar gyfer achosion yn y gymuned oedd 81%. Roedd cyfran debyg o'r holl atgyfeirio angenrheidiol wedi cael ei wneud i'r asiantaethau priodol.

(2) Roedd tystiolaeth o weithio'n effeithiol gydag eraill, yn enwedig gyda darparwyr ETE, yr heddlu a CAMHS, i hyrwyddo Diogelu a lles y plentyn neu'r person ifanc.

(3) Bron ym mhob un o'r achosion dan glo perthnasol, roedd staff y GCI yn gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau parhad y gwasanaethau wrth drosglwyddo i'r gymuned.

(4) Cafodd ymyriadau penodol i gefnogi Diogelu yn y gymuned eu nodi mewn 86% o achosion a'u darparu mewn 71%. Lle cawsant eu nodi yn y Cynllun Rheoli Agored i Niwed, roeddent yn cael eu hymgorffori yn y cynllun ymyrryd mewn 82% o achosion.

(5) Ym mhob un achos heblaw am un yn y sampl dan glo, roedd yr ymyriadau i gefnogi Diogelu wedi cael eu darparu a'u hadolygu'n briodol.

(6) Ystyriwyd bod goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol mewn wyth allan o ddeg achos dan glo.

(7) Cawsom fod yr holl staff perthnasol wedi cefnogi a hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc drwy gydol ei ddedfryd ym mhob achos dan glo heblaw am un ac mewn 71% o achosion cymunedol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd ymyriadau penodol i hyrwyddo Diogelu yn y gymuned wedi cael eu hadolygu bob tri mis neu'n dilyn newid sylweddol mewn 16 allan o 27 o achosion perthnasol.

(2) Ystyriwyd bod goruchwyliaeth gan reolwyr o anghenion Diogelu ac agored i niwed wedi'i wneud yn effeithiol mewn 55% o achosion cymunedol.

### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau: 77%

### SYLWADAU ar Ddarparu ac Adolygu Ymyriadau ar y cyfan:

Roedd gan y GCI ffocws cryf ar blant a phobl ifanc dan glo ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y darganfyddiadau. Roedd ansawdd y gwaith *RoN* a Diogelu, gan gynnwys goruchwyliaeth gan reolwyr, yn uwch yn y sampl dan glo nag yn y sampl gymunedol.

Roedd cyfraniad yr asiantaethau partner yn y cam asesu'n rhoi sylfaen i gyd-ddarparu ymyriadau'n effeithiol. Gwelsom enghreifftiau o waith gwneud iawn

creadigol a rhaglenni gwaith grŵp, er gwaetha'r her o weithio ar draws ardal wledig eang. Roedd y GCI wedi contractio Ymyrraeth Cyfiawnder Cymunedol Cymru i ddarparu'r Gosb Gymunedol Gryfach, lle mae plant a phobl ifanc yn defnyddio 20% o'r oriau sydd wedi eu dyrannu iddynt i ddilyn cyrsiau achrededig. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i gymryd rhan yng nghynllun gwobrau Dug Caeredin.

# 3. CANLYNIADAU

| **3.1 Sicrhau canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***58%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roeddem yn ystyried bod *RoN* y plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei reoli'n effeithiol mewn 70% o achosion.

(2) Mewn 71% o'r sampl, roedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd.

(3) Gwelsom dystiolaeth y gwnaed popeth rhesymol i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn 82% o achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio â gofynion y ddedfryd, roedd y camau gorfodi a gymerwyd yn ddigonol ond mewn 5 allan o'r 11 achos perthnasol.

(2) Wrth adolygu asesiadau, ni welsom unrhyw welliant yn y sgôr 'agweddau at droseddu' mewn 65% o achosion, mewn ffactorau 'ffordd o fyw' mewn 61% ac mewn 'meddwl ac ymddygiad' mewn 58%. Y pethau hyn oedd yn gysylltiedig amlaf â'r ToA yn y sampl.

(3) O'r 27 achos lle aseswyd bod yna ffactor risg yn gysylltiedig â Diogelu, gwelsom dystiolaeth o leihad yn y ffactorau hyn mewn 11 o achosion.

| **3.2 Cynnal canlyniadau:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***74%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfder:*

(1) Roedd sylw llawn yn cael ei roi i faterion integreiddio yn y gymuned ym mhob un o'r achosion dan glo a chynlluniau yn eu lle i sicrhau y gellid cynnal canlyniadau cadarnhaol. Roedd y cryfder hwn yn adlewyrchu lefel y gwaith partneriaeth, gan gynnwys cyd-ymweliadau dan glo gydag ETE, y gwasanaethau iechyd ac asiantaethau priodol eraill.

### *Maes lle mae angen gwella:*

(1) Yn y sampl gymunedol, cymerwyd camau i sicrhau neu roedd cynlluniau yn eu lle i sicrhau y gellid cynnal canlyniadau cadarnhaol mewn 66% o achosion.


**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 68%**

**SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:**

Ni sgoriodd yr adran yma cystal ag yr oeddem yn ei ddisgwyl, o ystyried y gwaith a wnaed i ddarparu ymyriadau. Mae'n debyg y gallai'r gwasanaeth fod wedi dangos tystiolaeth well o newidiadau yn y ffactorau risg a oedd yn gysylltiedig â Diogelu ac aildroseddu, drwy gofnodi gwell.

Roedd lefelau uchel o gydymffurfio yn adlewyrchu'r ymgysylltiad cadarnhaol gyda'r plant a'r bobl ifanc a'u rhieni / gofalwyr, a nifer yr ymweliadau cartref. Fodd bynnag, gwelsom arferion gorfodi anghyson a gormod o absenoldebau'n cael eu derbyn heb ddigon o eglurhad.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd Môn wedi'i leoli yn rhanbarth Gogledd Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 116,843 (Gwynedd) a 66,829 (Ynys Môn) a fesurwyd gan Gyfrifiad 2001, 9.6% (Gwynedd) a 10.4% (Ynys Môn) ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn fymryn yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Roedd poblogaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn Brydeinig gwyn yn bennaf (98.8% ar gyfer Gwynedd a 99.3% ar Ynys Môn). Roedd y boblogaeth ddu a lleiafrifol ethnig (1.2% yng Ngwynedd a 0.7% ar Ynys Môn) yn is na'r cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a ryportiwyd lle derbyniodd plant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed benderfyniad cyn-llys a phenderfyniad llys yn 2008-2009, sef 48 am bob 1,000, yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 46.

### Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd ffiniau'r Gwasanaeth o fewn yr un ffiniau ar gyfer ardaloedd heddlu a Phrawf Gogledd Cymru. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yn gyfrifol am iechyd yr ardal.

Roedd y Gwasanaeth wedi'i leoli yn y Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd yng Nghyngor Gwynedd. Roedd yn cael ei reoli gan Uwch Reolwr y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Dros Dro Cyngor Sir Ynys Môn. Roedd y partneriaid statudol i gyd yn mynychu'n gyson.

Roedd Pencadlys a chanolfan weithredol y Gwasanaeth wedi eu lleoli ym mhentref Y Felinheli. Roedd rhaglen yr ISSP yn cael ei darparu'n fewnol.

### Data ar Berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar adeg yr arolygiad am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Gwynedd Môn ar sicrhau bod plant a phobl ifanc, a oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mewn addysg, hyfforddiant neu waith addas, yn 82.1%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt, ac yn uwch na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 69%.

Eu perfformiad ar sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd oedd 97.9%. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn cynt ac yn well na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 96.1%.


Y "gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis" oedd 19%, sy'n llawer gwell na'r cyfartalog ar gyfer Cymru o 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


**Sampl Achosion: Math o Ddedfryd**





**Sampl Achosion: Risg o Niwed**





**Sampl Achosion: Oed ar Ddechrau'r Ddedfryd**




**Sampl Achosion: Tarddiad Ethnig**




**Sampl Achosion: Rhyw**



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cafodd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei gyflawni ym mis Mawrth 2010

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data perfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*London, SW1P 2BQ*

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB ASBO | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. |
| Asset | Offeryn asesu systematig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd y person ifanc, yr amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddu. |
| CAF | Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan weithiwr arweiniol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf. |
| Careworks | Un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd YOIS+ |
| CRB | Criminal Records Bureau neu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol |
| DTO | Detention and Training Order neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Gwaith: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith |
| FTE | Full-time equivalent neu Gyfwerth ag Amser Llawn |
| HM / EM | Ei Mawrhydi |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau adeiladol a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolion a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddu a/neu i helpu i warchod y cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau Risg unigolion o achosi Niwed i eraill. Er enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gallai *ymyriad adeiladol* gael ei roi iddynt drwy raglen troseddwyr rhyw achrededig; gallai *ymyriad cyfyngu* (i leihau ei Risg o Niwed) gael ei roi iddynt i fonitro, yn gyson a thrylwyr, eu llety, eu cyflogaeth ac unrhyw le y maent yn mynd iddo'n aml, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n briodol i bob achos. Dalier sylw: Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig. |
| ISSP | Intensive Supervision and Surveillance Programme neu'r Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys : mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ac i ddechrau'n golygu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *Adeiladol.* |
| LSC | Learning and Skills Council neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | Local Safeguarding Children Board neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant : sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| MAPPA/ TACAA | Multi-Agency Public Protection Arrangements neu'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth; lle mae'r gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno Risg o Niwed uwch i eraill. |

| | |
|---|---|
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny). |
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | Prolific and other Priority Offender neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolyn neu'n berson ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. Iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | Pre-sentence report neu Adroddiad Cyn-dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Cyfradd aildroseddu ar ôl naw mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach a gofnodir i fod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>'felly byddai 110%' yn golygu bod yn union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif i fod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Lloegr ar ddechrau 2009 oedd 85%. |
| RMP | Risk management plan neu Gynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau Risg yr unigolion o achosi Niwed. |
| *RoN* | Risg o Niwed i eraill. Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu.* |
| 'Gwaith RoN', neu 'Gwaith Risg o Niwed' | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi Risg o Niwed i eraill. |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng *pa mor debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith/ difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod *'Risg o Niwed'* yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol sy'n cael llai o *effaith /* sy'n llai *difrifol* yn *debygol.* |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | Screening Interview for Adolescents neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | Screening Questionnaire Interview for Adolescents neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan Dimau Troseddwyr Ifanc. |
| VMP | Vulnerability management plan neu Gynllun Rheoli Agored i Niwed: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| YOI | Young Offenders Institution neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc : sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd wedi eu carcharu ar remand neu wedi eu dedfrydu i garchar. |
| YOIS+ | Youth Offending Information System neu'r System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system electronig o reoli achosion ar gyfer gwaith troseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks |
| Gwasanaeth TI | Gwasanaeth/Tîm Troseddwyr Ifanc. |

© Hawlfraint y Goron

Arolygaeth Prawf EM
6ed Llawr, Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Rhif Ffôn - 0161 869 1300

Mae copïau o'r ddogfen hon ar gael mewn fformat wahanol ar gais

ISBN 978-1-84099-283-0